

Cyngor Sir y Fflint

Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020, fel y'u diwygiwyd

HYSBYSIAD GWELLA EIDDO

Rhan A

I: Azad Ahmadi, Cyfarwyddwr Clive Barber Shop Limited

Yn: 78 Chester Road West, Shotton, CH5 1BZ

Cyflwynir yr Hysbysiad Gwella hwn dan baragraff 1 o Atodlen 8 o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) Cymru 2020, fel y'u diwygiwyd (y Rheoliadau).

Mae'r Rheoliadau yn pennu cyfyngiadau a gofynion i ddiogelu yn erbyn y risgiau i iechyd y cyhoedd sy'n deillio o'r coronafeirws. Bydd torri'r gofynion a restrir, heb esgus resymol, yn drosedd.

Mae gennyf i, Lucy Inglis, fel yr unigolyn dynodedig perthnasol yng Nghyngor Sir y Fflint i ddibenion y Rheoliadau, sail resymol dros gredu eich bod chi, fel y sawl sy'n gyfrifol am y fangre a nodir uchod, sydd yn fangre reoledig fel y'i diffinnir dan Reoliad 15(1), wedi methu â chymryd camau rhesymol, fel y'u nodir yn Rhan B isod, i leihau'r perygl o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws yn y fangre.

Er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth mae'n angenrheidiol ac yn gymesur cyflwyno'r Hysbysiad Gwella hwn er mwyn sicrhau eich bod yn cydymffurfio â'r dyletswyddau hyn gan eich bod eisoes wedi derbyn cyngor ond wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol.

Rhan B. Torri'r gofynion a bennir dan Reoliadau 16 ac 17A

Rydych wedi methu â chymryd yr holl gamau rhesymol i sicrhau bod pellter o ddau fetr yn cael ei gynnal rhwng unrhyw unigolion sydd yn y fangre (ar wahân i ddau aelod o'r un aelwyd neu ofalwr a'r sawl y mae'r gofalwr yn eu cynorthwyo).

a / neu

Rydych wedi methu â chymryd yr holl gamau rhesymol eraill angenrheidiol i'r pwrpas hwnnw, er enghraifft camau sy'n cyfyngu ar ryngweithio wyneb yn wyneb ac yn cynnal hylendid megis -

newid gosodiad y fangre yn cynnwys lleoliad y dodrefn a'r safleoedd gwaith; darparu neu fynnu'r defnydd o offer personol amddiffynnol

a / neu

darparu gwybodaeth i'r rhai hynny sy'n dod i mewn i, neu'n gweithio yn y fangre ynghylch sut i leihau'r perygl o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws.

(Rheoliadau 16(1)(a)(i), (b)(i) a (vi) ac (c))

17A Mesurau penodol sy'n berthnasol i eiddo manwerthu

Lle bo rheoliad 16(1) yn berthnasol i unigolyn sy'n gyfrifol am eiddo manwerthu busnes sy'n cynnig nwyddau neu wasanaethau ar werth neu i'w hurio yn yr eiddo hwnnw (yn cynnwys busnesau sy'n gwerthu bwyd a diod i'w bwyta a'u hyfed oddi ar yr eiddo), mae'n rhaid i'r camau sydd i'w cymryd gan yr unigolyn cyfrifol gynnwys (ond ni fyddant yn gyfyngedig i) -

- (a) mesurau i reoli mynediad i'r fangre ac i gyfyngu ar nifer y cwsmeriaid sydd yn y fangre ar unrhyw un adeg;
- (d) mesurau i atgoffa cwsmeriaid i gynnal pellter o 2 fetr rhyngddyn nhw a phobl eraill a gwisgo gorchudd wyneb – (i) arddangos arwyddion a chymhorthion gweledol eraill;

Rydych wedi methu â chymryd y camau hyn

yn benodol mae'n ofynnol i chi gymryd y camau canlynol:

- (a) Mae'n rhaid bod system yn ei lle i sicrhau y cedwir pellter o 2 fetr rhwng y seddau barbwr neu fod gwahanfur plastig sy'n ymestyn o'r nenfwd i'r llawr yn cael ei osod rhwng y seddau barbwr gyda phellter o 1 fetr rhwng y seddau.
Mae'n ofynnol hefyd bod pellter o 2 fetr rhwng unrhyw gwsmeriaid sy'n aros am apwyntiad a/neu'r safleoedd gwaith.**
- (b) Wrth weithio mae'n rhaid i bob aelod o staff wisgo gorchudd wyneb math II a feisor clir sy'n gorchuddio'r holl wyneb, neu gogls.
Mae'n rhaid i bob cwsmer hefyd wisgo gorchudd wyneb.**
- (c) Mae'n rhaid i staff sy'n torri barfau neu'n tynnu blew trwynol ac ati wisgo Masg Llawfeddygol Gwrth Hylif (FRSM), amddiffyniad llygaid (gogls neu feisor wyneb llawn) a menig a ffedog tafladwy.**
- (d) Mae'n rhaid i chi fod â mesurau yn eu lle i reoli mynediad i'r fangre ac i gyfyngu ar nifer y cwsmeriaid sydd yn y fangre ar unrhyw un adeg; mae Canllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer Barbwyr yn datgan y dylai gwasanaethau cyswllt agos ymdrechu i weithio ar sail apwyntiad yn unig. Ni ddylid derbyn pobl sy'n cerdded i mewn heb apwyntiad. Mae mesurau i gyfyngu ar ledaeniad COVID-19 yn cael eu cefnogi gan wasanaeth Profi, Olrhain a Diogelu'r GIG, sy'n golygu bod yn rhaid i chi gofnodi enwau a manylion cyswllt pob cwsmer a'u cadw am 21 diwrnod.**
- (e) Mae'n rhaid i chi arddangos arwyddion a chymhorthion gweledol eraill er mwyn atgoffa cwsmeriaid i gynnal pellter o 2 fetr rhyngddyn nhw a phobl eraill a gwisgo gorchudd wyneb**

Pe bai gennych unrhyw atebion arfaethedig eraill i'r toriadau a nodir yn Rhan B, cysylltwch â'r Swyddog Gorfodi i'w trafod gan ddefnyddio'r manylion cyswllt isod.

Rhan C. Y camau y mae'n rhaid i chi eu cymryd

Mae'r Hysbysiad Gwella hwn yn ei gwneud yn ofynnol i chi gymryd y camau a nodir yn Rhan B uchod erbyn y dyddiad a'r amser a nodir ar ddiwedd yr hysbysiad hwn a fydd dim cynt na 48 awr ar ôl ei gyflwyno. Pan fyddwch wedi cydymffurfio â thelerau'r hysbysiad hwn dylech gysylltu â'r swyddog a'i cyflwynodd a byddant yn trefnu i gynnal ymweliad i asesu cydymffurfiaeth. Pan fydd y swyddog yn fodlon eich bod wedi cydymffurfio byddant yn cyflwyno hysbysiad terfynu ysgrifenedig i chi.

RHAN D. Rhoi cyhoeddusrwydd i hysbysiadau gwella a chau mangre

Pan fydd hysbysiad gwella neu hysbysiad cau mangre yn cael eu cyhoeddi mae'r rheoliadau'n mynnu bod y Swyddog Gorfodi, cyn gynted ag y bo hynny'n rhesymol ymarferol ar ôl cyflwyno'r hysbysiad, yn

- (a) arddangos copi o'r hysbysiad, ac arwydd ar y ffurf a nodir yn Atodlen 6 i'r rheoliadau (darperir yr arwydd gyda'r Hysbysiad hwn), mewn man amlwg ger pob mynedfa i'r fangre **a**
- (b) trefnu bod yr hysbysiad yn cael ei gyhoeddi ar wefan yr awdurdod lleol ar gyfer yr ardal y mae'r fangre wedi'i lleoli ynddi

Rhaid parhau i arddangos a rhoi cyhoeddusrwydd i'r copi/copïau o'r hysbysiad a'r arwydd y mae'n ofynnol eu harddangos yn y fangre a'u cyhoeddi ar wefan yr awdurdod lleol drwy gydol yr amser y mae'r hysbysiad mewn grym.

Nodwch ei bod yn drosedd, heb esgus rhesymol, symud, cuddio neu ddifrodi hysbysiad neu arwydd y mae'n ofynnol eu harddangos dan y rheoliadau.

Rhan E. Canlyniadau diffyg cydymffurfiaeth

Gallai methu â chymryd y camau a nodir yn yr Hysbysiad Gwella hwn arwain at gyflwyno Hysbysiad Cau i chi a fydd yn eich rhwystro rhag gweithredu.

Rhan F. Eich hawl i herio'r hysbysiad hwn

1. Gall unigolyn y cyflwynir hysbysiad gwella neu hysbysiad cau mangre iddynt apelio i lys ynadon yn erbyn yr hysbysiad.
2. Rhaid gwneud apêl - (a) drwy gŵyn am orchymyn, ac yn unol â Deddf Llysoedd Ynadon 1980(37), a (b) o fewn 7 diwrnod ar ôl y diwrnod y cyflwynwyd yr hysbysiad.
3. Gall llys ynadol ganiatáu gwneud apêl ar ôl diwedd y cyfnod a nodir yn is-baragraff (2)(b) os yw'n fodlon bod rheswm da dros y methiant i apelio cyn diwedd y cyfnod hwnnw (ac am unrhyw oedi mewn gwneud cais am ganiatâd i apelio pan fydd y cyfnod penodedig wedi dirwyn i ben).
4. Gall llys ynadon oedi effaith hysbysiad gwella neu gau mangre tra bydd penderfyniad am apêl yn cael ei wneud
5. Ar apêl yn erbyn hysbysiad gwella neu hysbysiad cau mangre, gall llys ynadon – (a) gadarnhau'r penderfyniad i gyflwyno'r hysbysiad; (b) rhoi cyfarwyddyd y dylid dirymu'r

hysbysiad; (c) addasu'r hysbysiad; (d) gwneud unrhyw orchymyn arall y bydd y llys yn ei ystyried yn briodol

6. Os bydd llys ynadon yn rhoi cyfarwyddyd y dylid dirymu neu addasu'r hysbysiad, gall orchymyn yr awdurdod lleol ar gyfer yr ardal y mae'r fangre dan sylw wedi'i lleoli ynddi i ddigolledu'r unigolyn sy'n gyfrifol am yr eiddo am golledion a ddiodefwyd o ganlyniad i gyflwyniad yr hysbysiad.
7. Gellir dod ag apêl gan y naill barti neu'r llall yn erbyn penderfyniad llys ynadon ar apêl o dan yr adran hon i Lys y Goron.
8. Ar apêl i Lys y Goron, gall y Llys – (a) gadarnhau, amrywio neu wrthdroi penderfyniad y llys ynadon; (b) dychwelyd yr achos i'r llys ynadon i'w waredu yn unol â chyfarwyddyd Llys y Goron.

Bydd yr Hysbysiad hwn yn aros mewn grym naill ai hyd y cyflwynir hysbysiad terfynu neu hyd nes y gwneir penderfyniad ynghylch unrhyw apêl y byddwch yn ei chyflwyno.

Llofnodwyd:	Dyddiad ac amser cyflwyno'r hysbysiad: 16 Ebrill 2021
Enw mewn Llythrennau Bras:	Rhaid cydymffurfio â'r hysbysiad hwn erbyn: 19 Ebrill 2021 (isafswm o 48 awr)
Enw a Chyfeiriad yr Awdurdod Lleol Cyngor Sir Y Fflint, Neaudd Y Sir, Yr Wyddgrug	
Ffôn 01352 703399	E-bost: covidbusinesscompliance@flintshire.gov.uk



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

IECHYD Y CYHOEDD Y CORONAFEIRWS

Gofyniad i leihau'r risg
o ddod i gysylltiad â'r
coronafeirws mewn mangre:

PUBLIC HEALTH CORONAVIRUS

Requirement to minimise
risk of exposure to
coronavirus on premises:

**ANGEN
GWELLA**

**IMPROVEMENT
NEEDED**

**Diogelu Cymru
gyda'n gilydd**

**Together we'll
keep Wales safe**